

**LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU**  
**Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd**  
**a gynhaliwyd yn Aberystwyth**  
**Ddydd Gwener, 6 Tachwedd 2015**

**Presennol:**

**Aelodau ac Ymddiriedolwyr**

Deian Hopkin, Llywydd  
Tricia Carter, Is-lywydd  
Roy Roberts  
Arglwydd Aberdâr  
Roy Evans

Colin R. John, Trysorydd  
Huw Williams  
Susan Davies  
Dyfrig Jones  
Phil Cooper

Hugh Thomas  
Gareth Haulfryn Williams  
Wyn Penri Jones  
Liz Siberry

**Tîm Gweithredol**

|               |  |
|---------------|--|
| Linda Tomos   | Prif Weithredwr a Llyfrgellydd               |
| David Michael | Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol           |
| Avril Jones   | Cyfarwyddwr Casgliadau a Rhaglenni Cyhoeddus |
| Pedr ap Llwyd | Ysgrifennydd a Phennaeth Llywodraethiant     |

**Hefyd yn bresennol:**

|                  |                            |
|------------------|----------------------------|
| Richard Houdmont | Darpar Ymddiriedolwr       |
| Rebecca Johnson  | MALD                       |
| Mary Ellis       | MALD                       |
| Doug Jones       | Cyngor Whitley             |
| Siân Thomas      | Cyngor Whitley             |
| Annwen Isaac     | Staff                      |
| Carol Edwards    | Staff                      |
| Mererid Jones    | Staff (ar gyfer eitem 4.1) |
| Eileen Kinsman   | Staff (ar gyfer eitem 2.2) |
| Rhys Huws        | Cyfieithydd                |

**1.1 Croeso'r Llywydd ac Ymddiheuriadau**

Croesawodd y Llywydd bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod, ac yn arbennig Linda Tomos a oedd yn mynychu'r cyfarfod o'r Bwrdd am y tro cyntaf fel Prif Weithredwr a Llyfrgellydd a hefyd Dyfrig Jones a Liz Siberry a oedd yn mynychu eu cyfarfod cyntaf fel Ymddiriedolwyr, a Richard Houdmont, darpar Ymddiriedolwr, a oedd yn bresennol fel aelod o'r cyhoedd gan na fydd ei gyfnod gwasanaeth ef yn cychwyn nes 1 Rhagfyr 2015.

Nododd y Llywydd mai hwn fyddai cyfarfod olaf Wyn Penri Jones a Gareth Haulfryn Williams fel Ymddiriedolwyr, a diolchodd iddynt am eu gwasanaeth dros nifer o flynyddoedd. Yn yr un modd, wrth i Syr Deian lywyddu ei gyfarfod olaf o'r Bwrdd, diolchodd yr Is lywydd iddo am ei wasanaeth yntau fel Llywydd y Llyfrgell.

Roedd Michael Trickey wedi ymddiheuro am ei absenoldeb.

## 1.2 Datgan Buddiannau

Gweler Atodiad 1 am fanylion llawn.

## 1.3 Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf. Nodwyd bod Susan Davies yn bresennol yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd er nas cofnodwyd hynny yn y cofnodion.

## Adran 2 Materion 'byw' ac yn codi o gofnodion y cyfarfod diwethaf

### 2.1 Adolygiad PwC

Cyflwynodd Pedr ap Llwyd adroddiad cynnydd ar brif argymhellion PwC. Nododd nad oedd yr Undebau eto wedi cael cyfle i gwblhau eu gwaith o ran darparu adborth i'r holl bolisiau a gweithdrefnau newydd a oedd wedi'u creu, ond gobeithir y bydd y broses ymgynghori wedi'i chwblhau erbyn 1 Rhagfyr. Mynegodd werthfawrogiad o gydweithrediad a mewnbwn adeiladol swyddogion yr Undebau i'r broses.

Roedd yr Aelodau'n fodlon â'r cynnydd a oedd wedi'i wneud ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd.

Nodwyd bod yr Aelodau yn eu cyfarfod diwethaf wedi penderfynu sefydlu Pwyllgor Llywodraethiant, Craffu a Pherfformiad er mwyn parhau â'r gwaith da sydd wedi'i gychwyn gan y Tasglu Llywodraethiant a sefydlwyd i fynd i'r afael ag argymhellion PwC. Yn dilyn y penderfyniad hwnnw fe gyflwynwyd i'r Aelodau ddrafft o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor ac yn dilyn trafodaeth fer fe'i cymeradwywyd mewn egwyddor. Bydd y Pwyllgor ei hun yn ystyried y Cylch ymhellach a'i ddiwygio yn ôl y gofyn ac wrth i'w waith ddatblygu.

Etholwyd Dyfrig Jones, Liz Siberry, Susan Davies a Hugh Thomas i wasanaethu ar y Pwyllgor.

Gweithredu: Pedr i drefnu cyfarfod o'r Pwyllgor, yn ddelfrydol cyn cyfarfod nesaf y Bwrdd.

### 2.2 Strategaeth Marchnata

Cyflwynodd Eileen Kinsman ei drafft cyntaf o'i strategaeth marchnata a oedd wedi'i baratoi ganddi a chafwyd nifer o sylwadau defnyddiol gan yr Aelodau. Yn eu plith awgrymwyd y dylid ychwanegu dau amcan marchnata strategol arall i'r strategaeth, sef (a) codi arian a chodi incwm a (b) datblygu a meithrin perthynas rhyngom ni a noddwyr y Llyfrgell.

Cytunwyd bod yr hyn a gyflwynwyd yn addawol iawn, ac er mwyn datblygu'r Strategaeth ymhellach, gyda'r nod o fabwysiadu'r Strategaeth yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Chwefror, fe gytunwyd i sefydlu grŵp tasg a chyflawni er mwyn medru gwireddu'r nod hwnnw. Aelodaeth y grŵp fydd Richard Houdmont, Susan Davies, Phil Cooper a Tricia Carter. Bydd y grŵp yn cyfarfod yn fuan a hynny ar ôl i'r Tîm Gweithredol roi ystyriaeth bellach iddo.

Gweithredu: Grŵp Tasg a Chyflawni i gyfarfod yn fuan er mwyn i Eileen Kinsman fedru cyflwyno Strategaeth yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.

## **Adran 3            Gwybodaeth a diweddariadau**

### **3.1        Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru**

Adroddwyd bod y trafodaethau rhwng y Llyfrgell a'r Comisiwn yn mynd rhagddynt yn dda. Y nod, o'r ddwy ochr, yw llofnodi'r les cyn diwedd mis Tachwedd.

Gweithredu: David Michael i baratoi les cyn diwedd Tachwedd.

### **3.2        Materion yn ymwneud â'r adeilad**

Nododd David Michael nad oedd Llywodraeth Cymru wedi ymateb eto i'r cais a gyflwynwyd iddynt am arian cyfalaf ychwanegol i fynd i'r afael â'r gwaith cynnal a chadw hanfodol a oedd angen ei wneud i'r adeilad, yn enwedig y materion hynny'n ymwneud ag iechyd a diogelwch.

Roedd yn dda hefyd gan David Michael nodi bod y prosiect i ddatblygu'r Bloc Technegol a mewnlenni'r clos ar gyfer adleoliad y Comisiwn Brenhinol yn datblygu'n dda iawn a bod y contractwyr yn cadw at yr amserlen.

### **3.3        Dogfen ffocws**

Cyflwynwyd y ddogfen gan Pedr ap Llwyd a nodwyd ei chynnwys gan yr aelodau.

### **3.4        Dangosyddion Cyflawni Gorffennaf – Medi 2015**

Cyflwynwyd y dangosyddion gan Pedr ap Llwyd.

### **3.5        Adroddiad Cynnydd Adrannau a'r Cyfarwyddiaethau**

Nodwyd cynnwys yr adroddiad.

### **3.6        Cenedlaethau'r Dyfodol**

Nododd David Michael, yng nghyd-destun y dyletswyddau y bydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn eu gosod ar y Llyfrgell, bod cynllun gweithredu a dangosyddion cyflawni priodol yn cael eu drafftio ganddo ar hyn o bryd a fydd yn cael eu cyflwyno i'w hystyried i gyfarfod nesaf y Bwrdd.

Gweithredu: David Michael i ddrafftio cynllun gweithredu a dangosyddion.

## **Adran 4            Materion ariannol**

### **4.1        Adroddiad cyllidebol hyd 30/9/2015**

Cyflwynwyd yr adroddiad cyllidebol gan Mererid Jones ac fe nodwyd y sefyllfa ariannol gan yr Aelodau.

## **4.2 Adroddiad Ariannol Codi Arian**

Adroddwyd sut y bu'r Llyfrgell yn llwyddiannus yn ei chais cyntaf i'r 'Esme Fairbairn Collections Fund' ar gyfer y prosiect 'Gwyddoniaeth a Chelf: Tu mewn a Thu Allan i Baentiadau Kyffin Williams'. Bydd cais pellach yn cael ei gyflwyno'n fuan.

## **Adran 5 Busnes y Llywydd a'r Prif Weithredwr**

### **5.1 Busnes y Llywydd**

Diolchodd y Llywydd i holl aelodau'r Bwrdd a'r staff am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad yn ystod ei gyfnod fel Llywydd. Ymatebodd yr Is Lywydd drwy ddiolch iddo yntau am ei wasanaeth a'i arweiniad fel Llywydd.

### **5.2 Busnes y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd**

Cyfeiriodd Linda Tomos at yr her a wynebai'r Llyfrgell wrth i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei chyllideb ar 8 Rhagfyr. Rhagwelai y gallai'r gostyngiad yng nghyllideb y Llyfrgell gael effaith arwyddocaol ar wasanaethau'r Llyfrgell ac arwain at leihau'r gweithlu.

## **Adran 6 Unrhyw fater arall**

Dim wedi'i drafod.

Diwedd y cyfarfod agored.

## **Atodiad 1: Buddiant Aelodau**

Datganodd Gareth Haulfryn Williams fudd yn y materion hynny y mae'r Llyfrgell yn eu trafod o bryd i'w gilydd â Chronfa Dreftadaeth y Loteri gan ei fod yn achlysurol yn cyflawni rôl ymgynghorol i'r Gronfa.

Datganodd Tricia Carter fudd yn y materion hynny y mae'r Llyfrgell yn eu trafod o bryd i'w gilydd â Llywodraeth Cymru gan ei bod yn Gyfarwyddwr Anweithredol ar Bwyllgor Llywodraethiant Corfforaethol Adran Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, Llywodraeth Cymru.

Datganodd Dr Susan Davies fudd yn y materion hynny y mae'r Llyfrgell yn eu trafod o bryd i'w gilydd â Chronfa Dreftadaeth y Loteri gan ei bod o bryd i'w gilydd yn cynorthwyo sefydliadau eraill gyda cheisiadau.

Datganodd Michael Trickey ei fod yn briod ag aelod o Gabinet Llywodraeth Cymru.

Datganodd Huw Williams ei fod yn aelod o Geldards LLP ac ers 1 Medi 2015 mae Geldards wedi bod yn un o nifer o gwmnïau a benodwyd i Fframwaith Cyfreithwyr Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol Cymru y mae'r Llyfrgell yn bwriadu ei ddefnyddio i fodloni ei gofynion o ran gwasanaethau cyfreithiol. Hefyd, mae Geldards yn parhau i gynghori'r Llyfrgell ar nifer o faterion parhaus dan gyfundeb gwasanaethau cyfreithiol blaenorol a ddyfarnwyd trwy dendr cystadleuol.

Yn ychwanegol, fe wnaeth Huw Williams ddatganiadau diddordeb penodol ynghylch y materion canlynol, a oedd yn codi o bapurau'r Cyfarfod Agored:

### **Eitem 2.3 - Cynnydd y Rhaglen Ailstrwythuro**

Fel y nodwyd yn adroddiad PwC roedd Geldards yn cynghori'r Llyfrgell yn ystod yr achos a drafodwyd yn yr adolygiad allanol. Gan nad oedd y materion oedd bellach dan ystyriaeth yn ymwneud yn uniongyrchol a'r rhai sy'n symud ymlaen nid oedd yn ystyried bod unrhyw ddiddordeb parhaus y ddylai ddatgan mewn perthynas â'r mater hwn yn y dyfodol. Nid oedd yn bwriadu gwneud hynny oni bai ei fod yn derbyn cyngor gan y Llywydd o dan Reoliad 9.4 y dylai ddatgan buddiant a gadael y cyfarfod.

### **Eitem 3.5 - Dangosyddion Cyflawni Gorffennaf – Medi 2015**

Nododd y buddiannau canlynol mewn perthynas ag eitemau a grybwyllir yn yr adroddiad:

1. Roedd yn Gyd-Ysgrifennydd Cwmni Canolfan Mileniwm Cymru.
2. Roedd Geldards LLP wedi darparu cyngor pro bono i Ganolfan Materion Rhyngwladol Cymru (ond nid mewn perthynas â'r prosiect ar y cyd ar hyn o bryd â'r Llyfrgell)

Nid oedd o'r farn bod y datganiadau hyn yn golygu ei bod yn ofynnol iddo adael ac roedd yn bwriadu aros oni bai ei fod yn derbyn cyngor gan y Llywydd o dan Reoliad 9.4 y dylai ddatgan buddiant a gadael y cyfarfod.